Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Y Fro

**Canolfan Addysg Gymunedol Palmerston**
**Cilgant Cadoc**
**Y Barri**
**Bro Morgannwg**
**CF63 2NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Y Fro

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i Oedolion yn 2016 gan sefydlu Canolfan Genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg y Fro (DCYF) yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe’i lleolir yn Adran Addysg Cymunedol Oedolion yng Nghyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg.

Derbyniodd grant craidd o £303,478 ar gyfer y flwyddyn 2022-2023 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cyflogir 5 o staff craidd, 5 tiwtor ar gytundeb a deuddeg o staff sesiynol (fesul awr). Swyddog Datblygu Addysg Cymraeg i Oedolion sydd yn gyfrifol am arwain y darparwr yn strategol ac yn weithredol.

DCYF yw un o’r darparwyr Cymraeg i Oedolion lleiaf o ran daearyddiaeth ac o ran dysgwyr. Cynyddodd nifer y dysgwyr i dros 500 yn ystod 2019-2020. Er bod nifer y dysgwyr wedi gostwng yn sylweddol yn sgil COVID -19, mae nifer y dysgwyr wedi codi yn agos at 500 erbyn adeg yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2022. Cynigir ystod lawn o gyrsiau prif ffrwd o lefel mynediad i hyfedredd yn gymunedol ac yn y gweithle ar draws y sir a thu hwnt, yn ogystal â rhaglen o weithgareddau cefnogi dysgwyr sy’n rhoi’r cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol.

## Crynodeb

Mae staff Dysgu Cymraeg y Fro wedi llwyddo i greu cymuned glòs ac mae lles dysgwyr yn ganolog i'w gwaith. Mae'r tiwtoriaid yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddysgu mewn amgylchedd dysgu ysgogol, cefnogol a chynhwysol.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cynnig her i ymestyn medrau iaith dysgwyr yn briodol, Maent yn holi a phrocio'n gelfydd, sy'n cynorthwyo'r dysgwyr i ddwyn i gof yr hyn maent wedi'i ddysgu. Yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid yn cyflwyno amcanion gweithgareddau'n effeithiol ac yn defnyddio'r iaith darged yn fedrus wrth gyflwyno ac adolygu geirfa a phatrymau brawddegol. Maent yn amrywio dulliau dysgu yn gyson er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y dysgwyr yn llwyddiannus.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau tiwtoriaid yn ddigon uchel ac maent yn troi i'r Saesneg wrth gyflwyno gweithgareddau ac egluro cyfarwyddiadau. Yn y gwersi hyn, nid yw tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr yn briodol i ynganu'n gywir. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd hyd orau eu gallu dros gyfnod. At ei gilydd, nid yw'r arlwy dysgu proffesiynol yn cefnogi tiwtoriaid yn ddigon bwriadus i wella arferion addysgu a dysgu penodol, megis dulliau trochi iaith priodol.

Mae'r darparwr yn trefnu nifer o weithgareddau sy'n cefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae'r dysgwyr sydd yn mynychu'r cyfleoedd hyn yn eu mwynhau'n fawr ac yn elwa'n ieithyddol ohonynt. Nid yw lleiafrif o'r dysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd gwerthfawr hyn i ymestyn a defnyddio eu medrau iaith er mwyn datblygu'n siaradwyr gweithredol.

Yn gyffredinol, nid yw trefniadau monitro a gwerthuso'r darparwr yn ddigon miniog i fynd i'r afael ag agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran dysgu ac addysgu. Yn ogystal, nid yw'r darparwr yn meddu ar brosesau effeithiol i ddadansoddi data er mwyn blaengynllunio darpariaeth a blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn strategol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth a phrosesau craffu mewnol i sicrhau diwylliant o hunanwerthuso ystyrlon er mwyn blaenoriaethu a gyrru gwelliannau ar lefel strategol

A2 Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddefnyddio data fel sail i flaengynllunio a chynllunio ar gyfer gwella strategol

A3 Datblygu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus sy'n mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn yr addysgu

A4 Datblygu'r cynnig i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol i sicrhau bod mwy ohonynt yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu'n siaradwyr gweithredol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro yn arolygiad nesaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr Dysgu Cymraeg y Fro (DCYF) yn cyfranogi’n frwdfrydig yn eu sesiynau dysgu. Maent yn rhyngweithio’n dda ag ymwelwyr ac yn arddel eu rhesymau dros ddysgu’r Gymraeg yn gadarn. Mae llawer ohonynt yn gwrando’n astud ac yn ateb yn addas i sbardunau llafar. Maent yn fodlon siarad Cymraeg yn ddigymell â’i gilydd a gyda’r tiwtor gan fynegi barn yn addas yn unol â’u lefel ieithyddol.

Mae llawer o ddysgwyr lefel canolradd ac uwch yn defnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac amseroedd y ferf yn gynyddol briodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr, yn arbennig ar y lefelau is, yn mentro defnyddio eu Cymraeg yn ddigymell. Maent yn dueddol o fod yn rhy barod i droi at Saesneg yn lle dyfalbarhau i ddefnyddio’r iaith sydd ganddynt. Mae lleiafrif y dysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn tueddu i fodloni ar gyflawni gofynion y dasg yn unig mewn ystafelloedd sgwrsio ar-lein yn lle dangos yr uchelgais i ymestyn eu hymatebion.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y lefelau uwch yn barod i fentro ac maent yn hunangywiro’n ddefnyddiol ac yn caffael a defnyddio elfennau naturiol yr iaith lafar fel idiomau a geirfa dafodieithol. Erbyn lefel hyfedredd, maent yn siarad yn huawdl gan ddefnyddio cystrawennau a geirfa amrywiol a chyfoethog. Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth ac ar draws y lefelau, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn defnyddio eu Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd a’u hymdrechion i ddod yn siaradwyr Cymraeg gweithredol.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y dysgwyr yn ynganu’n briodol. Fodd bynnag, mae ynganiad lleiafrif y dysgwyr yn dangos gormod o ddylanwad yr iaith Saesneg.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn dechrau darllen a dangos dealltwriaeth briodol o ddarnau byrion sy’n gofyn iddynt lenwi bylchau wrth ddefnyddio manylion personol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn darllen ar goedd yn briodol pan gânt gyfle ac yn medru darllen hysbysebion a deialogau cynyddol gymhleth. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr ar y lefelau hyn yn darllen ar goedd yn herciog ac nid yw eu hynganiad a’u goslef yn briodol. Mae dysgwyr lefel sylfaen yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o elfennau syml yr iaith drwy ddarllen darnau sy’n cynnwys ffurfiau cwmpasog a chryno berfau gwahanol.

Erbyn lefel canolradd, mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o destunau mwy uchelgeisiol gan gynnwys darnau mewn cyweiriau amrywiol, er enghraifft llythyrau digrif rhwng cymeriadau dychmygol sydd am ddod o hyd i gymar sy’n siarad Cymraeg. Mae mwyafrif y dysgwyr lefel uwch yn ymdrechu i ddarllen testunau materion cyfoes. Er enghraifft, ar y cyfan, maent yn deall cynnwys erthyglau o wefan Cymru Fyw y BBC a’u trafod yn briodol.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau gwahanol yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn unol â’u lefel. Mae dysgwyr lefel mynediad yn dechrau ysgrifennu yn y Gymraeg drwy gwblhau tasgau llenwi bylchau gan ddefnyddio manylion personol yn addas. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o batrymau iaith a geirfa syml ac

yn eu defnyddio'n briodol, ar y cyfan. Mae mwyafrif yn dechrau defnyddio treigladau'n addas wrth ysgrifennu brawddegau ac atebion. Yn gyffredinol, mae dysgwyr ar y lefel hon yn cyfieithu brawddegau byrion yn gywir, pan fo angen. Mae mwyafrif y dysgwyr lefel sylfaen yn ymestyn eu hysgrifennu i gynnwys yr amseroedd amodol a'r dyfodol cryno yn gywir. Maent hefyd yn medru defnyddio'r cymal enwol gan dreiglo'n addas, ar y cyfan. Mae lleiafrif yn dueddol o gymysgu treigladau meddal a thrwynol, ar adegau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn llwyddo i ysgrifennu darnau effeithiol yn y trydydd person i ddisgrifio pobl maent yn eu hadnabod.

Mae llawer o ddysgwyr lefel canolradd yn cyfuno medrau darllen ac ysgrifennu i fynegi barn yn ysgrifenedig am themâu mwy haniaethol, fel trafod os yw plant heddiw yn cael gormod o ryddid, yn effeithlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y lefelau uwch yn llwyddo i gyfansoddi darnau estynedig sydd yn dangos dealltwriaeth gadarn o gywair a gramadeg wrth draethu am themâu amrywiol megis atgofion personol a hanes Cymru.

Mae nifer y dysgwyr wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Cynyddodd niferoedd i dros 500 o ddysgwyr yn ystod 2019-2020. Collwyd bron i draean o'r dysgwyr yn ystod 2020-2021 yn dilyn cynnig darpariaeth oedd yn dibynnu'n sylweddol ar gyrsiau wyneb yn wyneb, yn groes i dueddiad y sector i gynnig cyrsiau o bell yn bennaf. Yn ystod 2021-2022, cododd niferoedd i dros 400. Mae ystadegau'r darparwr, heb eu gwirio, yn nodi bod niferoedd wedi dychwelyd i lefel 2019-2020 erbyn yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2022.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae mwyafrif y dysgwyr, ar gyfartaledd, yn cwblhau eu cyrsiau, er bod hyn wedi gostwng i leiafrif yn ystod 2019-20. Mynychodd llawer o ddysgwyr eu dosbarthiadau yn ystod wythnos yr arolygiad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y dysgwyr cymwys sy'n dewis sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion gan CBAC wedi disgyn yn sylweddol. Ychydig iawn sydd bellach yn sefyll arholiad, ac o'r rheiny, mae bron pawb yn llwyddo.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae Dysgu Cymraeg y Fro (DCYF) yn gymuned glòs a gofalgar lle mae lles dysgwyr yn ganolog i'w gwaith. Mae hyn yn elwa'r dysgwyr ac yn atgyfnerthu eu lles emosiynol yn gadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn canmol y gofal sydd ar gael gan y darparwr ac mae anghenion personol dysgwyr unigol yn cael eu diwallu'n effeithiol. Un enghraifft nodweddiadol o'r gofal hwn yw'r ffordd y mae'r holl diwtoriaid a'r staff yn cadw cyswllt rheolaidd â'r dysgwyr er mwyn eu cefnogi'n gyson. O ganlyniad, mae bron bob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Maent yn glir am y gweithdrefnau sydd ar waith i'w diogelu a'r protocolau ar gyfer canmol a chwyno sydd yn y llawlyfr i ddysgwyr.

Wrth gychwyn ar eu cyrsiau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgartrefu'n dda gyda chefnogaeth gynhaliol gan eu tiwtoriaid. Mae ymdeimlad eu bod yn rhan o gymuned glòs ymhob dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod ganddynt lais sydd yn cael ei

glywed a bod y darparwr yn gwrando ar eu barn neu bryderon. Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi bod y darparwr yn gweithredu ar eu sylwadau lle mae hynny'n bosibl, er enghraifft drwy ymgynghori i wneud addasiadau i ddulliau gweithredu gwrth-Covid yn y dosbarth.

Mae ychydig o ddysgwyr, sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol drwy'r gwersi 'Dal ati', yn elwa'n bersonol o'r ddarpariaeth hon. Maent yn gwerthfawrogi gweithredu hyblyg y staff wrth ymateb i unrhyw anghenion unigol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu mynychu a pharhau â'u cyrsiau, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd at ddysgu'r iaith.

Yn y gwersi, mae bron bob dysgwr yn ymddwyn yn barchus ac yn briodol gan ddangos agweddau cadarn at ddysgu'r Gymraeg. Maent yn ddysgwyr cyfeillgar sydd yn rhyngweithio'n dda â'u tiwtoriaid ac yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eraill. Mae'r rhan fwyaf yn mynychu gwersi'n brydlon, yn canolbwyntio'n dda ac yn frwdfrydig i ddechrau dysgu yn syth. Maent yn mwynhau dysgu Cymraeg ac mae hyn yn nodwedd gadarn o'r berthynas agos sydd rhwng y darparwr a'r dysgwyr. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r dysgwyr yn cydweithio'n adeiladol â'u tiwtoriaid er mwyn cwblhau tasgau ac yn manteisio ar yr adborth llafar i gywiro camgymeriadau a gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mewn llawer o achosion, mae gan y dysgwyr nodau clir ar gyfer dysgu'r iaith ac mae hyn yn eu cymell i ddyfalbarhau â thasgau yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y dysgwyr yn hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg ar lafar o ystyried eu man cychwyn a lefel eu gallu ieithyddol. Mae'r dysgwyr hyn yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol tu hwnt i'r gwersi, er enghraifft gydag aelodau o'r teulu neu wrth fynychu grwpiau gwirfoddol megis sesiynau 'paned a sgwrs'. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mewn lleiafrif yr achosion lle gwelir cynnydd cryf, mae'r dysgwyr yn uchelgeisiol gyda hunangymhelliant cadarn. Maent yn manteisio ar gyfleoedd ychwanegol i finiogi eu medrau megis cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd neu wrth fynychu sesiynau atodol gwerthfawr. Yn yr ychydig achosion lle gwelir y cynnydd mwyaf arwyddocaol, mae'r dysgwyr yn adnabod eu meysydd personol i'w gwella yn glir. Mae'r dysgwyr hyn yn mynd y filltir ychwanegol nid yn unig i wella eu profiadau eu hunain ond hefyd i gefnogi cynnydd eu cyd-ddysgwyr. Mae ychydig iawn o'r dysgwyr mwyaf llwyddiannus yn gwirfoddoli i drefnu sesiynau anffurfiol i annog eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mewn ychydig iawn o achosion, maent yn cefnogi tiwtoriaid mewn sesiynau gyda dysgwyr ar lefel mynediad.

Yn yr ychydig o achosion lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd arafach, maent yn dawedog ac nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg ar lafar yn ddigon aml o fewn a thu hwnt i wersi. Nid yw'r dysgwyr hyn yn manteisio ar gyfleoedd drwy gwblhau gwaith cartref er mwyn atgyfnerthu eu dysgu a derbyn adborth buddiol. Yn y sesiynau ar-lein i bobl ifanc, maent yn tueddu i ddiffodd eu camerâu ac nid ydynt bob amser yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i sgwrsio'n ymestynnol mewn ystafelloedd trafod rhithiol. Mae eu hymatebion yn fyr ac yn nid ydynt yn ymdrechu i ymhelaethu'n ddigonol.

Yn gyffredinol, mae lleiafrif y dysgwyr yn teimlo bod y gwasanaeth gan DCYF yn cyfoethogi eu bywydau ac yn gwella eu medrau personol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella**

Mae'r tiwtoriaid yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddysgu mewn amgylchedd dysgu ysgogol, cefnogol a chynhwysol. Mae gan lawer wybodaeth berthnasol am iaith ac maent yn defnyddio dulliau syml i helpu dysgwyr i gaffael y Gymraeg a chreu siaradwyr gweithredol. Maent yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr wrando a siarad yn y gwersi, sydd yn ei dro yn eu helpu i fagu hyder i gyfathrebu'n gynyddol ddigymell.

Yn yr arferion gorau, mae tiwtoriaid yn adnabod anghenion y dysgwyr yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Maent yn cyflwyno amcanion gweithgareddau'n effeithiol ac yn defnyddio'r iaith darged yn fedrus wrth gyflwyno ac adolygu geirfa a phatrymau brawddegol. Maent yn amrywio dulliau dysgu yn gyson er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y dysgwyr, er enghraifft wrth ddefnyddio apiau i chwarae gemau iaith. Yn gyffredinol, mae rhediad sionc i'r sesiynau yn cymell dysgwyr yn fuddiol wrth iddynt wneud cynnydd systematig yn eu medrau. Er enghraifft, mewn gwersi hyfedredd, cyflwynir gweithgareddau creadigol a chyfoes ar themâu sydd wedi eu hargymell gan y dysgwyr. Mae'r addysgu yn cyfoethogi eu hiaith wrth ddysgu am dafodieithoedd lleol mewn gweithgaredd coginio a darllen cerddi perthnasol gan brifardd. Fodd bynnag, nid yw'r arferion cadarn hyn yn cael eu harddel yn gyson ar draws y ddarpariaeth. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau tiwtoriaid yn ddigon uchel ac maent yn troi i'r Saesneg wrth gyflwyno gweithgareddau ac egluro cyfarwyddiadau. Yn ogystal, nid ydynt yn cefnogi dysgwyr i ymarfer ynganu geirfa'n gynyddol gywir wrth ddefnyddio dulliau trochi effeithiol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd hyd orau eu gallu dros gyfnod.

Mae llawer o diwtoriaid yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n cefnogi dysgwyr i wybod beth i'w wella a sut, yn enwedig yn eu medrau siarad. Maent yn cynnal dysgwyr yn sensitif ac yn cyflwyno gwybodaeth am iaith yn grefftus a chynnil, er enghraifft wrth redeg arddodiaid a thrafod ystyr idiomau er mwyn gwella a chyfoethogi eu sgwrsio. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn herio ac ymestyn y dysgwyr yn briodol ac yn dwyn dysgu blaenorol i gof drwy holi a phrocio celfydd. Yn yr arfer orau, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo, mae tiwtoriaid yn darparu adborth llafar drwy ddulliau digidol ac yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau yn adeiladol. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob tro'n cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau i'r eithaf, yn enwedig y dysgwyr mwy abl. At ei gilydd, nid yw'r arlwy dysgu proffesiynol yn cefnogi tiwtoriaid yn ddigon bwriadus i wella arferion addysgu a dysgu penodol.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod lawn o gyrsiau prif ffrwd o lefel mynediad i hyfedredd, yn gymunedol ac yn y gweithle ar draws y sir a thu hwnt. Yn ogystal, maent yn darparu rhaglen o weithgareddau cefnogi dysgwyr sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol. Caiff amrywiaeth o ddosbarthiadau wyneb yn wyneb, ar-lein, dwys, dwys iawn, cyfunol a hamddenol eu trefnu, sy'n cynnwys datblygiadau newydd o ddysgu pobl ifanc a darpariaeth Cymraeg yn y Cartref. Mae ychydig o diwtoriaid yn hyderus eu medrau digidol wrth gyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ar yr un pryd yn llwyddiannus. Drwy hyn, mae'r darparwr yn cefnogi dysgwyr i fynychu sesiynau wyneb yn wyneb ac yn rhithiol yn unol â'u gofynion proffesiynol a phersonol.

Mae’r darparwr yn trefnu nifer o weithgareddau addas sy’n cefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Er enghraifft, mae staff yn trefnu gweithgareddau hwyliog fel cyd-chwarae gemau bwrdd fel rhan o’r ddarpariaeth Gwener Gweithgareddau. Mae ychydig o ddysgwyr yn dechrau defnyddio’r Gymraeg yn gynyddol annibynnol yn y gymuned leol hefyd er mwyn ymarfer sgwrsio â siaradwyr Cymraeg newydd a rhugl. At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg yn gyson ond nid yw lleiafrif yn manteisio ar a chyfranogi’n llawn mewn gweithgareddau sy’n cael eu cynllunio ar eu cyfer.

Mae bron bob dysgwr yn gwerthfawrogi bod tiwtoriaid yn eu hysgogi a’u cefnogi i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn ei dro yn meithrin eu dealltwriaeth o fuddion a gwerth cyfathrebu yn y Gymraeg gydag aelodau’r teulu a chydweithwyr, er enghraifft. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cyfoethogi profiad dysgwyr o ddysgu Cymraeg ymhellach drwy rannu gwybodaeth am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth chwarae a dysgu caneuon gan artistiaid o Gymru, fel Dafydd Iwan.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r darparwr yn llwyddo i greu cymuned glòs, gynhwysol sy'n cynnig gofal a chymorth i’w dysgwyr ymhob agwedd o’u profiad dysgu. Mae hyn yn cael effaith bositif ar agwedd y dysgwyr at eu dysgu a’u deilliannau.

Mae’r tiwtoriaid, ar y cyfan, yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn creu perthynas ofalgar lwyddiannus gan sicrhau awyrgylch bugeiliol da ym mron pob dosbarth, ac o ganlyniad, mae cymhelliant dysgwyr yn uchel. Mae gan y tiwtoriaid adnabyddiaeth dda o anghenion personol dysgwyr yn y grwpiau y maent yn eu haddysgu. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig cefnogaeth bwrpasol wedi ei hanelu at anghenion yr unigolyn pan fo angen. Mae cynnal lefelau uchel o les y dysgwyr a’r staff yn greiddiol i’r darparwr. Mae bron bob tiwtor wedi derbyn hyfforddiant lles myfyrwyr a staff.

Mae cefnogaeth dda i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae’r darparwr yn manteisio ar fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg er mwyn i staff dderbyn cymorth a chyngor arbenigol i gynorthwyo dysgwyr â dyslecsia ac awtistiaeth. Un enghraifft yw’r cymorth a roddir i ddysgwyr ag awtistiaeth sy’n cefnogi gwella medrau bywyd yn ogystal â medrau ieithyddol.

Mae gan y darparwr drefniadau cyfathrebu da gan gynnig ystod eang o wybodaeth, sef prosbectws ar-lein a phapur, taflenni gwybodaeth a chyngor effeithiol a diduedd dros y ffôn i ddysgwyr ddewis y cwrs mwyaf perthnasol. Cyn dechrau’r cwrs, mae dysgwyr yn derbyn gohebiaeth yn tynnu eu sylw at y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt. Yn ddiweddar, newidiwyd y llawlyfr er mwyn sicrhau bod gan y dysgwyr wybodaeth benodol am bolisïau’r darparwr.

Yn dilyn gostyngiad sylweddol mewn niferoedd rhwng 2019-20 a 2020-21, mae cadw dysgwyr yn flaenoriaeth gan y darparwr. Mae’r tiwtoriaid yn dod i adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynnig pob cymorth i’w helpu â’u dysgu, gan gynnwys ystyried newid cwrs os oes angen er mwyn parhau â’r dysgu. Mae tiwtoriaid yn cydweithio’n briodol â’r staff gweinyddol i adnabod y dysgwyr hynny sydd yn ei chael yn anodd. Er enghraifft, maent yn darparu cefnogaeth iddynt ddychwelyd i’r cwrs, newid cwrs neu fynychu sesiynau dal i fyny gyda thiwtor er mwyn gallu ailafael yn eu dysgu. Mae'r darparwr wedi cydweithio â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i

ddarparu cwrs-lyfrau ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu golwg. Fodd bynnag, nid oes system ffurfiol mewn lle i dracio presenoldeb dysgwyr a'i fonitro'n rheolaidd er mwyn blaengynllunio.

Mae'r darparwr yn annog y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. O ganlyniad, mae'r mwyafrif yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg gyda theulu, ffrindiau, yn y gweithle ac ati. Trefnir rhaglen eang o weithgareddau wythnosol i alluogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg, er enghraifft boreau coffi a chlybiau darllen, ac ymweliadau â chymdeithasau lleol fel Cymrodorion y Barri. Yn ogystal, trefnir rhaglen flynyddol o ymweliadau â digwyddiadau megis Gŵyl Fach y Fro a Tafwyl. Hysbysebir y digwyddiadau drwy'r tiwtoriaid a chyfathrebu uniongyrchol â'r dysgwyr  Anogir dysgwyr ar lefelau uwch i ymuno â'r Cynllun Siarad er mwyn ehangu eu cyswllt â'r Gymraeg. Er hyn, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Mae trefniadau addas ar waith i gasglu barn dysgwyr. Mae deialog barhaus rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr. Mae proses canmol a chwyno addas yn ei lle a chaiff ei gweithredu'n effeithiol i gynorthwyo cyfathrebu rhwng y staff â'r dysgwyr. Cynhelir Wythnos Llais y Dysgwr i'r dysgwyr allu mynegi barn am y ddarpariaeth. Hyrwyddir yr holiadur cenedlaethol blynyddol Dweud Eich Dweud yn briodol, gyda tua thraean o'r dysgwyr yn ei gwblhau. Mae'r darparwr yn gweithredu yn sgil sylwadau ac yn rhoi gwybod i'r dysgwyr ynglŷn â'r camau a wneir. Un enghraifft oedd prynu meicroffon bach i'r tiwtor yn sgil cwynion am sŵn yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y pandemig pan oedd rhaid cadw'r ffenestri ar agor.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Mae DCYF yn rhan o Adran Addysg Oedolion a Chymunedol Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r darparwr wedi datblygu ymdeimlad cryf o dîm ymysg tiwtoriaid brwdfrydig sy'n cydweithio'n addas â'i gilydd. Mae'r darparwr yn rhan annatod o ddyhead Cyngor Bro Morgannwg i hyrwyddo a chynyddu defnydd y Gymraeg. Mae'n dylanwadu'n ddefnyddiol ar y sefydliad ehangach drwy sicrhau bod unedau hyfforddiant gorfodol y cyngor yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â chynnig cyrsiau dysgu Cymraeg i weithlu'r cyngor ei hun. Hysbysebir y cyrsiau hyn ar dudalen flaen mewnrwyd y cyngor. Mae hyn yn ychwanegu statws at waith y darparwr o fewn y sefydliad cartref.

Mae arweinwyr DCYF wedi sefydlu gweledigaeth sy'n gyson ag amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a pholisi Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon yn cael ei gwireddu'n llawn ar lefel weithredol ac at ei gilydd, nid yw'r darparwr yn mynd i'r afael ag agweddau pwysig sydd angen eu gwella yn ddigon bwriadus fel rhan o'r trefniadau monitro a gwerthuso.

Mae swydd ddisgrifiadau addas gan bob aelod o'r tîm. Er hyn, nid yw arweinwyr yn glir am yr hyn sydd yn ofynnol ohonynt i gyflawni eu dyletswyddau strategol yn llawn. Nid yw arweinwyr yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigon effeithiol gan brosesau rheoli

llinell a chraffu'r sefydliad cartref. Yn ogystal, mae capasiti'r tîm bychan i weithredu ar draws holl feysydd cyfrifoldeb darparwr Cymraeg i Oedolion yn gyfyngedig.

Nid yw'r darparwr yn meddu ar brosesau i ddadansoddi ystadegau i flaengynllunio darpariaeth a blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn strategol. Nid yw arweinwyr yn wybodus ynglŷn â'r math o wybodaeth sydd ar gael drwy systemau data cenedlaethol ac nid ydynt yn dangos dealltwriaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio data i gynllunio ar gyfer gwella. Mae eu defnydd o ystadegau yn gyfyngedig ac yn bennaf at ddibenion adroddiadau ar gyfer prosesau monitro'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hyn yn ddiffyg arwyddocaol sydd angen ei wella ar frys.

Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn ddigon hyderus i fyfyrio ar, a herio patrymau darparu hanesyddol drwy hunan-arfarnu gonest a defnydd ystyrlon o wybodaeth ystadegol.

Mae arweinwyr yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol ymhlith staff drwy gyrsiau corfforaethol y cyngor. Maent yn llwyddo i greu amgylchedd gwaith gofalgar a chefnogol. Gyda chymorth y Ganolfan Genedlaethol, maent yn sicrhau bod gan diwtoriaid y medrau a'r hyder i ddarparu gwersi o bell a gwersi hybrid yn effeithiol. Mae hefyd yn cefnogi nifer o gyn-ddysgwyr i ennill cymhwyster cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sef Dechrau Dysgu, er mwyn dod yn diwtoriaid.

Mae tiwtoriaid yn cael eu harsylwi'n rheolaidd sy'n cyfrannu at drafodaethau perfformiad gan gynnwys camau gweithredu priodol. Serch hyn, nid yw'r broses ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu ac asesu yn ei chyfanrwydd yn ddigon gwerthusol a chadarn ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y ddarpariaeth.

Er bod cyrsiau hyfforddi amrywiol a sesiynau rhannu arfer dda ar gael i diwtoriaid, nid yw'r hyfforddiant ar y cyfan wedi'i deilwra'n uniongyrchol i ymateb i anghenion penodol tiwtoriaid yn ymwneud â dulliau addysgu effeithiol. Er enghraifft, mae gormod o diwtoriaid yn parhau i drosglwyddo gwallau, megis ynganu anghywir, i'w dysgwyr. Mae'r diffygion hyn yn rhwystro cynnydd dysgwyr ac yn gwneud cymathu â chymdeithas a rhwydweithiau Cymraeg yn fwy heriol iddynt.

Mae gan arweinwyr wybodaeth briodol o gostau rhaglenni a gweithgareddau eraill. Mae'r darparwr yn elwa o'i berthynas gyda'r awdurdod lleol, er enghraifft o ran defnyddio lleoliadau a gwasanaethau mewnol yr awdurdod ei hun sydd o fudd i staff a dysgwyr. Nid yw'r gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu yn fwy nag 15% o'r cyfanswm a ddyrennir yn unol â chanllawiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 23/03/2023

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 23/03/2023